



## UMPA

### Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

22<sup>ain</sup> Mai 2019

### Ystafell y Pwyllgor

---

#### Yn bresennol

Bruce Fraser Wight (BFW)	- Llywydd, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr UMPA
Anna Wyn (AW)	- Swyddog Diwylliant Cymreig UMPA, Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr
Megan Hatfield (MH)	- Swyddog Materion Academaidd UMPA ac Ymddiriedolwr
Louisa Fletcher (LF)	- Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr ac Ymddiriedolwr UMPA
Olympia Petrou (OP)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Ryan Beasley (RB)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA

Peter Curran (PC) drwy skype - Ymddiriedolwr Allanol UMPA

#### Hefyd yn bresennol

Trish McGrath (TM)	- Prif Weithredwr UMPA
Annmarie Evans (AE)	- Cynorthwydd Gweithredol UMPA (yn cymryd cofnodion)
Chloe Wilkinson-Silk (CWS)	- Swyddog AUSU etholedig (yn arsylwi)
Tomos Ifan (TI)	- Swyddog AUSU etholedig (yn arsylwi)
Wojciech Salski	- Swyddog AUSU etholedig (yn arsylwi)

## **GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD**

### 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alan Roberts a Molly-Jean Longden.

### 2. Datganiadau o Fuddiannau

Doedd dim datganiadau o fuddiannau.

### 3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 18<sup>fed</sup> Mawrth.

### 4. Materion sy'n Codi / Taflen Weithredu

- i. Llawlyfr Staff - Awgrymodd OP fod y Llawlyfr yn rhy hir, bod rhai polisiau ar goll, ac y dylid ei wneud ychydig yn fwy cyfeillgar ac ystyried ar ei gwtogi. Dywedodd TM fod argymhellion OP a anfonwyd drwy e-bost eisoes wedi'u hystyried a bod y ddogfen wedi'i diwygio.
- ii. BUCS - Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y £50,000 gan y Brifysgol ar gyfer BUCS, sydd ddim yn ddigon i dalu costau. Awgrymwyd y gallai fod angen am drafodaeth gyda'r Brifysgol ynghylch effaith lleihau nifer y timau sy'n cymryd rhan.

#### Nodwyd

## **STRATEGAETH**

### **5. Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth**

Rhoddodd TM drosolwg o'r cyfrifon Rheolaeth hyd at 2019 gan adrodd ar y meysydd lle'r oedd gorwario a thanwario. Hefyd rhoddodd TM drosolwg o sefyllfa credydwy'r a dyledwy'r, gan nodi nad oedd unrhyw bryderon mawr.

**Nodwyd**

### **6. Adroddiad y Prif Weithredwr / Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

Rhoddodd TM drosolwg o'r gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf. Y meysydd a drafodwyd oedd y Gyllideb ac Ariannu, Staffio / AD, Arolwg Staff, Gofod Undeb y Myfyrwyr, Aber 7s, Rhyngolgapau Farsiti, Gwobrau Aber, a diweddariad ar Undebau Myfyrwyr o Safon (QSU).

Nododd TM hefyd, er ein bod wedi gwneud yn well nag erioed o'r blaen o ran y nifer a bleidleisiodd yn yr Etholiadau, methwyd cyrraedd y targed yn y DPA sy'n arwydd da o ran ble'r ydym o gymharu â'r strategaeth.

**Nodwyd**

### **7. Adroddiad y Swyddogion**

Nododd y Bwrdd Flaenoriaethau'r Swyddogion hyd yma a diolchodd iddynt am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

**Nodwyd**

### **8. Arolwg Ymgysylltiad Staff**

Rhoddodd TM ddadansoddiad o ganlyniadau Arolwg Ymgysylltiad Gweithwyr UCM ac eglurodd ein bod i raddau helaeth yn falch iawn â'r canlyniadau, heb unrhyw bryderon gwirioneddol.

**Nodwyd**

### **9. Rhoi Rhybudd i Peninsula**

Hysbysodd TM y Bwrdd y byddwn yn dod â'n contract 3 blynedd i ben gyda Peninsula ym Mawrth 2020 a'r bwriadu yw tynnu allan yn gyfangwbl. Cytunodd y Bwrdd ei bod yn fwy buddiol darparu'r hyfforddiant i rywun yn fewnol. Cytunodd TM a nododd y byddem fodd bynnag yn parhau â'n Rhaglen Cymorth i Weithwyr gan ei bod wedi profi'n amhrisiadwy gyda llawer o staff yn wedi manteisio ar y cyfle.

**Cymeradwywyd**

### **10. Apwyntiad Ymddiriedolwr**

Hysbyswyd y Bwrdd fod Debra Croft wedi'i phenodi'n Ymddiriedolwr Allanol ac y bydd yn dechrau yn y rôl yn y flwyddyn academaidd newydd.

**Nodwyd**

### **11. Ffarwelio**

Diolchodd y Bwrdd i'r Swyddogion am eu gwaith caled a'u proffesiynoldeb, a diolchodd yn benodol i'r Cadeirydd am ei arweinyddiaeth a'i amynedd wrth gynnal y cyfarfodydd.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

I'w gadarnhau